# Peilot Cymorth Gofal Plant Gwyliau Haf ADY Abertawe

# Swansea ALN Summer Holiday Childcare Support Pilot

## Cwestiynau Cyffredin

### Ynglŷn â'r cynllun peilot

Cynigir gwasanaeth peilot yn ystod gwyliau ysgol yr haf i alluogi plant o oedran ysgol llawn amser gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n dod i'r amlwg neu sydd wedi'u nodi i fynychu gofal plant. Galluogi rhieni/gofalwyr i weithio, mynychu addysg neu gymryd rhan mewn hyfforddiant.

Mae'r grant yn helpu'r clwb i gyflogi Gweithiwr Chwarae ychwanegol i gefnogi'r plentyn.

### Beth yw'r Grant Dwylo Ychwanegol / Un-i-Un?

Mae'r grant yn helpu plant sydd angen cymorth oedolyn un-i-un ychwanegol i fynychu Clwb Gofal Plant Allysgol a chymryd rhan yn llawn ynddo. Dyfernir cyllid i'r clwb gofal plant er mwyn iddo gyflogi Gweithiwr Chwarae ychwanegol i gefnogi'r plentyn.

### Pwy all wneud atgyfeiriad?

Gall atgyfeiriad gael ei wneud gan ysgol, rhiant/gofalwr, sefydliad partner neu weithiwr proffesiynol sy'n adnabod y plentyn ac sy'n cefnogi'r teulu. Rhaid cwblhau ffurflen gais ar wahân ar gyfer pob plentyn.

### Pwy sy'n gymwys?

Mae'r grant ar gyfer plant a phobl ifanc sydd o oedran addysg gynradd amser llawn ac sydd angen cymorth un-i-un i fynychu Clwb Gofal Plant Allysgol.

Gall blaenoriaeth gael ei rhoi lle mae gofal plant yn helpu rhieni/gofalwyr i weithio, dychwelyd i'r gwaith neu hyfforddiant, cael

## Frequently Asked Questions

### About the pilot

A pilot service is being offered the summer school holidays to enable children of full-time school age with emerging or identified Additional Learning Needs (ALN) to attend childcare. Enabling parent/carers to work, attend education or participate in training.

The grant helps the club employ an additional Playworker to support the child.

### What is the Extra Hands / One-to-One Grant?

The grant helps children who need additional one-to-one adult support to attend and take part fully in an Out of School Childcare Club. Funding is awarded to the childcare club so it can employ an additional Playworker to support the child.

### Who can make a referral?

A referral can be made by a school, parent/carer, partner organisation or professional who knows the child and is supporting the family. A separate application form must be completed for each child.

### Who is eligible?

The grant is for children and young people who are of full-time primary education age who need one-to-one support to attend an Out of School Childcare Club.

Priority may be given where childcare helps parents/carers to work, return to work or

gofal seibiant, neu'n galluogi'r plentyn i gael mynediad at gyfleoedd chwarae.

training, receive respite care, or enables the child to access play opportunities.

**Pa anghenion cymorth y gellir eu hystyried?**

Gall anghenion cymorth gynnwys anghenion penodol, anghenion corfforol, anghenion emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol, anghenion dysgu, anghenion synhwyraidd, anghenion lleferydd, iaith neu gyfathrebu, cymorth Saesneg fel iaith ychwanegol, neu angen arall sydd wedi'i nodi. Rhaid i'r cais esbonio'n glir pam mae angen cymorth un-i-un.

**What support needs can be considered?**

Support needs may include specific needs, physical needs, emotional, social or behavioural needs, learning needs, sensory needs, speech, language or communication needs, English as an additional language support, or another identified need. The application must explain clearly why one-to-one support is needed.

**Beth mae'r grant yn talu amdano?**

Mae'r grant yn cyfrannu £13.45 yr awr tuag at gyflog y Gweithiwr Chwarae un-i-un, gan gynnwys unrhyw dâl gwyliau perthnasol, cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr neu gostau staff eraill. Gellir gwneud cais am gyllid am hyd at 9 awr y dydd ac uchafswm o 25 awr yr wythnos.

**What does the grant pay for?**

The grant contributes £13.45 per hour towards the one-to-one Playworker's wage, including any applicable holiday pay, employer National Insurance contributions or other staff costs. Funding can be requested for up to 9 hours per day and a maximum of 25 hours per week.

**Pwy sy'n derbyn taliad y grant?**

Telir y grant yn uniongyrchol i'r Clwb Gofal Plant Allysgol. Rhaid i unrhyw gostau ychwanegol gael eu talu gan y rhiant, y gofalwr neu'r clwb.

**Who receives the grant payment?**

The grant is paid directly to the Out of School Childcare Club. Any additional costs must be met by the parent, carer or club.

**A ellir cynnwys y Gweithiwr Chwarae un-i-un mewn cymarebau staff?**

Na. Ni ddylid cynnwys staff a ariennir gan y grant hwn yng nghymarebau staff y clwb.

**Can the one-to-one Playworker be counted in staff ratios?**

No. Staff funded by this grant must not be included in the club's staff ratios.

**Pryd mae'r cyllid ar gael?**

Mae'r cyfnod cyllido presennol yn rhedeg o 20 Gorffennaf 2026 i 28 Awst 2026. Mae cyllid yn gyfyngedig a bydd ceisiadau'n cael

**When is the funding available?**

The current funding period runs from 20 July 2026 to 28 August 2026. Funding is limited and applications will be considered on a

eu hystyried yn barhaus nes bod y cyllid sydd ar gael wedi'i ddyrannu.

**Pryd dylid cyflwyno cais?**

Rhaid derbyn ceisiadau o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cyntaf y mae angen cymorth. Bydd ceisiadau anghyflawn yn cael eu dychwelyd.

**A yw gwneud cais yn gwarantu cyllid?**

Na. Mae cyllid yn gyfyngedig, ac nid yw cyflwyno cais yn gwarantu y bydd cyllid yn cael ei ddyfarnu.

**Beth sy'n digwydd ar ôl cyflwyno cais?**

Bydd ceisiadau'n cael eu hadolygu, a bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael gwybod yn ysgrifenedig drwy lythyr dyfarnu.

Ni ddylai clybiau gyflogi Gweithiwr Dwylo Ychwanegol cyn derbyn y llythyr dyfarnu oni bai eu bod yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw gostau os yw'r cais yn aflwyddiannus neu cyn dyddiad dechrau'r grant y cytunwyd arno.

**Beth ddylai darparwyr, ysgolion a gweithwyr proffesiynol ei gynnwys yn y cais?**

Dylai'r cais gynnwys manylion llawn am anghenion cymorth y plentyn, y rheswm pam mae angen cymorth un-i-un, y dyddiadau a'r oriau y gofynnir amdanynt, y meini prawf perthnasol, a'r holl lofnodion gofynnol. Dylai atgyfeirwyr sicrhau bod y rhiant/gofalwr yn deall diben y grant ac yn cytuno i'r atgyfeiriad.

rolling basis until the available funding has been allocated.

**When should an application be submitted?**

Applications must be received at least 5 working days before the first date support is needed. Incomplete applications will be returned.

**Does applying guarantee funding?**

No. Funding is limited, and submitting an application does not guarantee that funding will be awarded.

**What happens after an application is submitted?**

Applications will be reviewed, and successful applicants will be notified in writing through an award letter.

Clubs should not employ an Extra Hands Worker before receiving the award letter unless they accept responsibility for any costs if the application is unsuccessful or before the agreed grant start date.

**What should providers, schools and professionals include in the application?**

The application should include full details of the child's support needs, the reason one-to-one support is required, the requested dates and hours, the relevant criteria, and all required signatures. Referrers should make sure the parent/carer understands the purpose of the grant and agrees to the referral.

**Beth os yw'r plentyn yn absennol neu nad oes angen cymorth arno mwyach?**

Rhaid i'r clwb hysbysu Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ar unwaith os yw'r plentyn yn absennol o'r lleoliad am 3 sesiwn neu fwy, yn gadael y lleoliad, nad oes angen cymorth un-i-un arno mwyach, neu fod angen llai o sesiynau arno.

Gall hyn arwain at ddiwygiad i ddyfarniad y grant.

**What if the child is absent or no longer needs support?**

The club must notify Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs immediately if the child is absent from the setting for 3 sessions or more, leaves the setting, no longer needs one-to-one support, or needs fewer sessions.

This may result in an amendment to the grant award.

**A allwn ni ddefnyddio aelod o staff sydd eisoes wedi'i gyflogi fel y Gweithiwr Chwarae cymorth ychwanegol?**

Gallwch. Gall y Gweithiwr Chwarae un-i-un fod yn aelod o staff sydd eisoes wedi'i gyflogi yn y clwb. Bydd unrhyw gymorth 1:1 a ddarperir, neu gostau staffio a godir, cyn i'r llythyr dyfarnu gael ei gyhoeddi neu cyn dyddiad dechrau'r grant y cytunwyd arno, yn cael eu talu gan y clwb.

**Can we use a staff member already employed as the additional support Playworker?**

Yes, the one-to-one Playworker may be a staff member that is already employed in the club. Any 1:1 support provided, or staffing costs incurred, before the award letter is issued or before the agreed grant start date will be met by the club.

**A oes rhaid i'r plentyn gael diagnosis ffurfiol?**

Nac oes. Mae'r cyllid hwn ar gyfer plant sydd naill ai â diagnosis ffurfiol neu anghenion sy'n dod i'r amlwg.
Fodd bynnag, rhaid i bob cais gael ei gefnogi gan weithiwr proffesiynol (atgyfeiriwr) nad yw'n cael ei gyflogi gan y Clwb Allysgol ac sy'n adnabod y plentyn yn ddigon da i gadarnhau bod yr wybodaeth a ddarparwyd yn adlewyrchiad cywir o'i anghenion

**Does the child have to have a formal diagnosis?**

No, this funding is for children who have either a formal diagnosis or emerging needs. However, all applications must be supported by a professional (referrer) who is not employed by the Out of School Club and who knows the child enough to confirm that the information provided is an accurate reflection of their needs.

## Pwy all gael ei enwi fel yr atgyfeiriwr ar y cais?

Rhaid i'r atgyfeiriwr fod yn weithiwr proffesiynol nad yw'n cael ei gyflogi gan y Clwb Gwyliau ac sy'n adnabod y plentyn. Drwy gefnogi'r cais, mae'r atgyfeiriwr yn cadarnhau bod angen cymorth ychwanegol ar y plentyn drwy weithiwr un-i-un.

Mewn llawer o achosion, gallai hyn fod yn aelod o staff yr ysgol, megis Pennaeth neu Gydlynydd ADY. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod efallai na fydd yn bosibl cael gwybodaeth neu lofnodion gan staff ysgol yn ystod gwyliau'r ysgol. Yn yr amgylchiadau hyn, gall gweithiwr proffesiynol arall sy'n adnabod y plentyn ac sy'n gyfarwydd â'i anghenion weithredu fel yr atgyfeiriwr. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, Gweithiwr Cymdeithasol, Meddyg Teulu, cynrychiolydd yr awdurdod lleol a gefnogodd yr ALP, neu CAMHS.

Os nad ydych yn siŵr a fyddai gweithiwr proffesiynol yn addas, cysylltwch â Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs am gyngor cyn cyflwyno'ch cais.

## Who can be named as the referrer on the application?

The referrer must be a professional who is not employed by the Holiday Club and who knows the child and by supporting the application confirms that the child does need additional support through a one-to-one worker.

In many cases, this may be a member of school staff, such as a Head teacher or ALNCo. However, we recognise that it may not be possible to obtain information or signatures from school staff during school holidays. In these circumstances, another professional who knows the child and is familiar with their needs may act as the referrer. This may be for example; a Social Worker, GP, the local authority representative who supported the ALP or CAMHS.

If you are unsure whether a professional would be suitable, please contact Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs for advice before submitting your application

**A all yr atgyfeiriwr a'r Pennaeth neu weithiwr proffesiynol arall sy'n adnabod y plentyn fod yr un person?**

Gall. Gall yr atgyfeiriwr hefyd fod yn Bennaeth neu'n weithiwr proffesiynol arall sy'n adnabod y plentyn. Pan fo hyn yn wir, dylid rhoi manylion yr atgyfeiriwr yng nghwestiwn 1, a dylent lofnodi'r ddwy adran ar y dudalen lofnodion, gan sicrhau eu bod yn cynnwys eu rôl swydd.

**Can the referrer and Headteacher or other professional known to the child be the same person?**

Yes, the referrer may also be the Headteacher or other professional known to the child. Where this is the case, the referrer's details should be entered into question 1, and they should sign both sections on the signature page making sure they include their job role.

**Angen help?**

Am gymorth i lenwi'r ffurflen neu i wirio a all plentyn fod yn gymwys, cysylltwch â:

Ria Hammond-Smith, Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.

Ebost: riah@clybiauplantcymru.org

**Need help?**

For help completing the form or checking whether a child may be eligible, contact:

Ria Hammond-Smith, Childcare Business Development Officer, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.

Email: riah@clybiauplantcymru.org